

8.1 Cyflwyniad

"Collaborative provision refers to the management of all learning opportunities leading or contributing to the award of academic credit or a qualification that are delivered, assessed or supported through an arrangement with one or more organisations other than the degree-awarding body".

QAA - Chapter B10: Managing higher education provision with others

8.1.1 Mae adran Darpariaeth Gydweithredol y Llawlyfr Ansawdd yn nodi'r rheoliadau diffiniol ar gyfer datblygu a rheoli gweithgarwch cydweithredol gan gynnwys, o bosibl, trefniadau nad ydynt yn bodoli eto lle dyfernir graddau Prifysgol Aberystwyth wedi iddynt gael eu darparu'n gyflawn neu'n rhannol mewn partneriaeth â sefydliad arall. Mae'n tynnu sylw at gyfrifoldebau y sefydliad dyfarnu a'r sefydliad partner fel ei gilydd, gan sicrhau bod y Brifysgol yn mabwysiadu agwedd sy'n seiliedig ar risg yn ei hymwneud â gweithgarwch cydweithredol.

8.1.2 Mae'r newid yn natur trefniadau cydweithredol dros y blynyddoedd diwethaf wedi golygu bod prifysgolion bellach yn fwy tebygol o weithio gydag ystod o sefydliadau i ddarparu darpariaeth gydweithredol, o fewn y DU ac yn drawswladol. O fewn Prifysgol Aberystwyth mae'r Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol yn gyfrifol am reoli a chadw trosolwg ar weithgareddau rhyngwladol y Brifysgol, a'i gweithgareddau cydweithredol rhyngwladol ac yn y DU. Mae hyn yn cynnwys gwneud cais am, asesu ac adolygu'r holl drefniadau cydweithredol a sicrhau bod yr holl ddogfennaeth berthnasol ar gael i'w hadolygu os gwneir cais am hynny. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod y Brifysgol a'i sefydliadau partner yn glynu at Gôd Ansawdd yr ASA ar gyfer darpariaeth gydweithredol. Mae'r Pwyllgor yn cadw'r hawl i newid y wybodaeth hon pan fydd angen. Rhoddir gwybod i'r athrofeydd am yr holl newidiadau yn brydlon.

8.1.3 Mae gan ddarpariaeth gydweithredol lawer o fanteision gan gynnwys ehangu mynediad i addysg uwch drwy ddarparu dulliau astudio, lleoliadau neu lwybrau mynediad hyblyg, mynediad i arbenigedd a chyfleusterau ychwanegol ar gyfer cydweithredu ym maes ymchwil, datblygu sgiliau staff, rhaglenni a gyfoethogir gan y cyfle i astudio dramor a chynaliadwyedd o ran dysgu ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

8.1.4 Ceir manylion am weithgarwch cydweithredol y Brifysgol yn y Gofrestr Darpariaeth Gydweithredol.

8.2 Teipoleg Gweithgarwch Cydweithredol

8.2.1 Mae'r deipoleg isod yn rhoi diffiniadau byr o'r mathau o drefniant cydweithredol y mae'r Brifysgol ar hyn o bryd wrthi'n ceisio'u datblygu a/neu eisoes yn ymwneud â hwy a sut maent yn cydfynd â phob categori. Nid yw hon yn rhestr derfynol a gall y Brifysgol gytuno i gychwyn mathau eraill o gytundeb cydweithredol, a/neu i amrywio natur y trefniadau er mwyn ystyried amgylchiadau neu anghenion penodol. Bydd amrywiadau o'r fath wastad yn cael eu hystyried gan ddefnyddio'r prosesau cymeradwyo perthnasol. Atgoffir staff, yn y rhan fwyaf o achosion, fod yn well gan y Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol i berthynas lwyddiannus flaenorol fodoli gyda sefydliad cyn y gall y berthynas symud ymlaen i ddatblygu darpariaeth gydweithredol uchel o ran risg.

Categori	Gweithgarwch	Diffiniad
Cytundebau Cyfnewid, Lleoliadau a DPP	Lleoliadau gwaith a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) nad oes credydau ynghlwm â hwy	Lleoliad mewn cyflogaeth neu ddarparu cyfleoedd dysgu i unigolion sydd eisoes yn ymwneud â'r farchnad lafur (boed hwy'n gyflogedig ar hyn o bryd ai peidio) lle nad yw eu cyfranogiad yn ennill credydau tuag at unrhyw gymhwyster.
	Dysgu seiliedig ar waith gyda chredydau ynghlwm	Lleoliad mewn cyflogaeth lle gall y myfyriwr ennill credydau tuag at ei gymhwyster.
	Rhaglenni Cyfnewid Rhyngwladol, Astudio Dramor ac Erasmus i staff a myfyriwr	Mae'r rhaglenni hyn yn caniatáu i fyfyrwyr unigol astudio mewn sefydliad partner (dramor fel arfer) am gyfnod o amser y cytunwyd arno a gallant arwain at gredyd tuag at eu cymhwyster.
	DPP â chredydau ynghlwm	Darparu cyfleoedd dysgu i unigolion sydd eisoes yn ymwneud â'r farchnad lafur (boed hwy'n gyflogedig ar hyn o bryd ai peidio) lle gellir ennill credyd tuag at gymhwyster.
Cydweithrediad Ymchwil	Arolygu PhD ar y Cyd/Co-tutelle	Arolygu ymgeisydd doethurol ar y cyd rhwng dwy brifysgol. Confensiwn wedi'i bersonoleiddio yw hwn rhwng prif brifysgol a phrifysgol bartner (y brif brifysgol yw'r sefydliad lle bydd yr ymgeisydd doethurol yn amddiffyn ei draethawd estynedig).
	Rhaglen Gradd Ymchwil Gydweithredol	Gall myfyriwr llawn-amser a rhan-amser dreulio rhan o'u cyfnod cofrestru neu'r cyfnod cyfan yn astudio mewn sefydliad partner. Gall hwn fod yn sefydliad academaidd, yn ganolfan ymchwil neu'n weithle arall sy'n addas ar gyfer yr astudio.

	<i>Cydweithredu ar gyfer ymchwil yn unig</i>	<i>Mae cydweithredu ar gyfer ymchwil yn unig yn cael ei gymeradwyo a'i reoli trwy'r Swyddfa Ymchwil, Busnes ac Arloesi. Cysylltwch â drbi@aber.ac.uk am ragor o wybodaeth.</i>
Symud Ymlaen a Chydweddu	<i>Trefniadau symud ymlaen</i>	<i>Gall myfyrwyr sydd wedi cwblhau rhaglen yn llwyddiannus mewn un sefydliad gael eu hystyried ar gyfer mynediad (ar sail yr unigolyn) i ddechrau rhaglen yn Aberystwyth. Bydd trefniadau symud ymlaen yn cael eu cymeradwyo oddi allan i'r Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol a'u rheoli gan adrannau gan nad ydynt yn ymwneud â'r Brifysgol yn dyfarnu credydau.</i>
	Trefniadau Cydweddu	Trefniant lle mae myfyrwyr sy'n cwblhau rhaglen astudio sydd wedi'i chymeradwyo yn llwyddiannus mewn sefydliad partner yn cael gwarant o fynediad i un o raglenni israddedig y Brifysgol gyda statws uwch. Bydd myfyrwyr fel arfer yn cwblhau dwy flynedd neu ragor o astudio mewn sefydliad partner ac yna'n trosglwyddo i Aberystwyth i gwblhau dwy flynedd olaf gradd. Mewn achosion eithriadol, gellir caniatáu i fyfyrwyr fynd yn syth i flwyddyn olaf gradd Prifysgol. Byddai'n rhaid i'r holl ymgeiswyr hefyd fodloni unrhyw amodau mynediad eraill y byddai'r Brifysgol yn eu gosod.
Partneriaid Strategol	Campws Cangen	Campws o'r brifysgol sydd wedi'i leoli ar wahân i brif gampws neu gampws 'cartref' y brifysgol ac sy'n aml yn llai na'r prif gampws.
	Dyfarniadau ar y Cyd	Trefniant lle mae dau neu ragor o gyrff dyfarnu, ynghyd, yn darparu rhaglen sy'n arwain at ddyfarniad sengl a wneir ar y cyd gan y ddau gyfranogwr, neu'r holl gyfranogwyr. Bydd un dystysgrif neu ddogfen (wedi'i llofnodi gan yr awdurdodau cymwys) yn tystio bod y rhaglen hon a ddarparwyd ar y cyd wedi'i chwblhau yn llwyddiannus, gan gymryd lle'r cymwysterau sefydliadol neu genedlaethol ar wahân.
	Dyfarniadau Deuol	Trefniadau lle mae dau neu ragor o gyrff dyfarnu, ynghyd, yn darparu un rhaglen (neu raglenni) a ddarperir ar y cyd sy'n arwain at ddyfarniadau ar wahân (ac ardystio ar wahân) gan y ddau, neu bob un, ohonynt.

	Rhyddfreinio	Proses lle mae Aberystwyth yn cytuno i awdurdodi sefydliad darparu i ddarparu (ac weithiau i asesu) rhan neu'r cyfan o un (neu ragor) o'i rhaglenni cymeradwyedig ei hun. Yn aml, bydd y corff dyfarnu graddau yn cadw cyfrifoldeb uniongyrchol am gynnwys y rhaglen, y strategaeth ddysgu ac addysgu, y gyfundrefn asesu a'r sicrhau ansawdd. Bydd gan fyfyrwyr fel arfer berthynas gytundebol uniongyrchol â'r corff dyfarnu graddau.
	Dilysu	Trefniant lle mae Aberystwyth yn barnu bod modiwl neu raglen a ddatblygwyd ac a ddarperir gan sefydliad arall o safon ac ansawdd addas i gyfrannu, neu arwain, at un o'i dyfarniadau ei hun. Bydd gan fyfyrwyr fel arfer rwymedigaeth gytundebol uniongyrchol i'r sefydliad darparu.

Templedi a chanllawiau penodol ar gael ar gyfer gwahanol fathau o gydweithio.
 Cysylltwch â'r Swyddfa Cydweithredu trwy collaboration@aber.ac.uk am gopiâu.

8.3 Egwyddorion Allweddol

8.3.1 Mae gan y Brifysgol sawl egwyddor allweddol sy'n sail i'r polisi ar gyfer datblygu trefniadau cydweithredol:

- Rhaid i'r holl weithgarwch cydweithredol fod yn gyson ag amcanion strategol cyffredinol y Brifysgol, gan gynnwys y Strategaeth Ryngwladol.
- Y sefydliad dyfarnu (Aberystwyth fel arfer) sy'n gyfrifol yn y pen draw am y safonau academiaidd ac ansawdd y dysgu a ddarperir ar ei ran lle bynnag y bydd hyn yn digwydd a chan bwy bynnag y'i darperir.
- Rhaid i ddarpariaeth gydweithredol fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn ddarostyngedig i gytundeb sy'n rhwymo mewn cyfraith ac sy'n amlinellu telerau'r trefniadau.
- Mae gweithgareddau cydweithredol yn ddarostyngedig i'r prosesau datblygu, cymeradwyo ac adolygu a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd, gan gynnwys monitro blynyddol, adolygu cyfnodol a gweithdrefnau adnewyddu/terfynu fel y bo'n briodol.
- Rhaid i sefydliadau partner fod â gweithdrefnau llywodraethu cadarn ar waith er mwyn dilyn y prosesau sicrhau ansawdd angenrheidiol.
- Sicrhau bod holl elfennau rhaglen gydweithredol yn cael eu darparu a'u hasesu yn Saesneg oni bai bod yr elfen honno yn gwrs na chaiff ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg.

8.3.2 Nid yw'r Brifysgol yn ymwneud â threfniadau cyfresol ar gyfer darparu darpariaeth gydweithredol. Ni fydd unrhyw gynigion am drefniadau fel hyn yn cael eu cymeradwyo. Bydd trefniant cyfresol yn digwydd pan fydd y sefydliad darparu (drwy ei drefniant ei hun) yn cynnig rhaglenni cyfan (sydd wedi'u rhyddfrenio iddo neu eu dilysu gan Aberystwyth fel y corff dyfarnu graddau) yn rhywle arall neu'n pennu i rywun arall bwerau a ddirprwywyd iddo gan y corff dyfarnu graddau.

8.4 Cyd-fynd yn Strategol

8.4.1 Bu i Gynllun Strategol y Brifysgol 2012–2017 nodi chwe maes i weithio'n strategol ynddynt, â'r nod cyffredinol bod Aberystwyth, erbyn 2017, yn cael ei gosod yn gyson ymhlith 30 prifysgol uchaf y DU, ac yn y 250 uchaf yn y byd. Yr amcanion mwyaf perthnasol o ran darpariaeth gydweithredol yw:

Meithrin Cysylltiadau â'r Byd:	<i>adeiladu ar ein henw da rhyngwladol, denu myfyrwyr a staff o bedwar ban byd, a chydweithredu â phartneriaid a gydnabyddir yn rhyngwladol.</i>
Gweithio mewn Partneriaeth:	<i>cydweithredu â phrifysgolion eraill, â'r gymuned leol ac Addysg Bellach, â chyflogwyr a busnesau, ac â'n cyn-fyfyrwyr, yn meithrin partneriaethau byd-eang, yn cyfoethogi profiad ein myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid.</i>

8.4.2 Mae'r Cynllun Strategol yn darparu strategaethau a thargedau ychwanegol dan bob un o'r amcanion hyn ac yn dangos sut mae PA yn bwriadu tyfu fel prifysgol drwy gynyddu ei chysylltiadau rhyngwladol a rhanbarthol, gwella gweithgarwch ymchwil, cynyddu'r rhyngweithio rhyngddisgyblaethol ac adeiladu ar y profiad y mae'n ei gynnig i fyfyrwyr, sydd eisoes yn rhagorol. Disgwylir i'r holl gynigion ar gyfer darpariaeth gydweithredol ddangos eu bod yn cyd-fynd ag amcanion strategol y Brifysgol.

8.4.3 Mae Strategaeth Ryngwladol y Brifysgol yn cael ei diweddarau ar hyn o bryd. Roedd Strategaeth Ryngwladol 2012 yn gwneud 11 o argymhellion ynghylch datblygu darpariaeth gydweithredol a gweithgareddau rhyngwladol, sef:

1. Bwriadwn sefydlu campysau cangen, a) yn ne-ddwyrain Asia, b) i gyrraedd Affrica (Mauritius o bosibl).
2. Dylem chwilio am bartneriaid tramor a all ddarparu ein darpariaeth wedi'i rhyddfrenio a'i dilysu.
3. Dylai Athrofeydd gynllunio a sefydlu rhaglenni o ansawdd uchel y gellir eu haddasu'n gyflym a'u darparu dramor.
4. Dylai Athrofeydd gynllunio a rhag-gymeradwyo rhaglenni sylfaen o ansawdd uchel a allai gael eu rhyddfrenio i bartneriaid sylfaen dramor.
5. Rhaid i Aberystwyth gynllunio a darparu Rhaglen Hyfforddiant Ieithyddol Saesneg ddwys y gall partneriaid sylfaen dramor ei darparu.
6. Rhaid i Aberystwyth sefydlu cynghreiriau strategol â phartneriaid ysgol ac AB yn y DU y gall myfyrwyr sy'n dod i mewn, o bosibl, eu defnyddio i astudio ar lefel 5 FfCAU ac uwch.
7. Pob Memorandwm Cytundeb/Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i fynd ati i sicrhau cyfnewid myfyrwyr a staff yn rheolaidd.
8. Ceisio datblygu rhaglenni E-DL sydd â chwmpas rhyngwladol gyda sefydliadau addysg uwch rhyngwladol o bwys.
9. Darparu, mapio a marchnata'r holl gymwysterau sydd ar gael i ni er mwyn cyrraedd y farchnad ehangaf bosibl.

10. Dylem anelu at sefydlu a datblygu cangen E-ddysgu o'r Brifysgol â chylch gorchwyl i gyrraedd cynulleidfa ryngwladol eang a herio targedau ar gyfer cynhyrchu refeniw.

11. Gwneud dadansoddiadau trwyadl o'r farchnad.

8.5 - 8.11 Y Broses Gymeradwyo

Mae'r broses gymeradwyo yn cael ei manylir yn adrannau 7.5-7.11. Mae'r Siart Ilif Darpariaeth Gydweithredol ar gael yn y Dogfennau Allweddol isod, yn rhoi trosolwg o'r broses ddatblygu, rheoli ac adolygu ar gyfer partneriaid newydd. Mae cydweithwyr yn cael eu cynghori i gyfeirio at yr amserlen ar gyfer y gwaith o ddatblygu Darpariaeth Gydweithredol - o gynnig i gymeradwyaeth i benderfynu ar y symiau lleiaf o amser sydd ei angen er mwyn datblygu gwahanol fathau o Ddarpariaeth Gydweithredol.

8.5 Sefydlu Partneriaeth

8.5.1 Gall cynigion ar gyfer partneriaethau newydd gael eu creu gan uwchreolwyr y Brifysgol, staff o fewn adrannau neu gan y partneriaid allanol eu hunain. Sut bynnag y cânt eu cychwyn, y Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol fydd yn gwneud y gwaith gwerthuso ar ddarpar bartneriaid newydd, a'u hailwerthuso yn gyfnodol. Bydd cynigion ar lefel rhaglenni, boed gyda phartneriaid sydd newydd gael eu cymeradwyo neu bartneriaid presennol, yn amodol ar gael eu hawdurdodi gan y Bwrdd Academaidd (BA).

8.5.2 Rhaid i'r holl gynigion gyd-fynd â'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer datblygu gweithgareddau cydweithredol. Ni ddylai darpariaeth gydweithredol gael ei sefydlu am resymau ariannol yn unig.

8.5.3 Anogir adrannau a phartneriaid posibl i drafod unrhyw drefniant cydweithredol posibl â staff yn y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion a'r Swyddfa Ryngwladol ar gam cynnar er mwyn ymgyswddo â'r broses a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol.

8.5.4 Rhaid darparu gwybodaeth yn rhoi manylion y broses lawn o gymeradwyo a sefydlu partneriaeth i'r partner posibl ar gam cynnar. Ni ddylid cymryd yn ganiataol fod trafodaethau cychwynnol yn awgrymu cytundeb terfynol ar gyfer cynnig.

8.5.5 Rhaid i ddarpariaeth gydweithredol fod mewn maes lle mae gan y Brifysgol arbenigedd a rhaglenni tebyg, a rhaid i athrofa/athrofeydd perthnasol y Brifysgol chwarae rhan. Gall y rhaglen hefyd fod yn un o raglenni cymeradwyedig y Brifysgol ei hun, neu'n rhan o un neu ragor ohonynt.

8.5.6 Rhaid i amcanion addysgol sefydliad partner gyd-fynd â rhai'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn ei sicrhau ei hun fod gan unrhyw sefydliad partner posibl y seilwaith academaidd a'r gwasanaethau cymorth addas i sicrhau bod y safonau angenrheidiol o ran rheoli a gwella ansawdd yn cael eu sefydlu a'u cynnal.

8.5.7 Rhaid i'r holl drefniadau cydweithredol gael eu negodi, eu cytuno a'u rheoli yn unol â pholisïau, gweithdrefnau a rheoliadau academaidd y sefydliad dyfarnu, fel y cawsant eu datgan yn ffurfiol.

8.5.8 Bydd ffioedd yn daladwy ar gyfer datblygu cytundebau Rhyddfrenio a Dilysu y dylid eu cynnwys yn yr achos busnes. Anogir cyd-weithwyr i drafod trefniadau ffioedd ar gyfer darpariaeth ryddfrenio a dilysu â'r Pennaeth Darpariaeth Gydweithredol ar gam cynnar yn natblygiad unrhyw gynnig.

8.6 Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth:

Datganiad rhwng y Brifysgol a'r partner posibl yn mynegi bwriad i gydweithredu yn y dyfodol. Fel arfer bydd memorandwm o'r fath yn ddilys am dair blynedd. Bydd pob cais yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor.

8.6.1 Cwblhau ffurflen gais Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw'r cam cyntaf yn y broses gymeradwyo ar gyfer sawl math o weithgarwch cydweithredol a rhaid ei chwblhau ar gyfer pob cynnig gyda phartneriaid newydd yn y meysydd canlynol gan gynnwys:

- Arolygu PhD ar y Cyd/Co-tutelle
- Trefniadau Cydweddu (gan gynnwys cytundebau 3+1+1 ac amrywiadau ar y model hwn)
- Graddau cydweithredol
- Rhyddfrentiau
- Dilysu

8.6.2 Bydd ceisiadau ar gyfer gweithgarwch cydweithredol yn cael eu cyflwyno gan yr Hyrwyddwr Academaidd sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cynnig. Disgwylir i'r Hyrwyddwr Academaidd drafod y cynnig â'r Swyddog Rhyngwladol perthnasol ar gyfer y rhanbarth, Cyfarwyddwr Datblygu Rhyngwladol yr Athrofa a chyd-weithwyr o'r Swyddfa Ryngwladol a'r Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion fel y bo'n addas. Os yw'r cais yn cynnwys mwy nag un Athrofa, neu os yw'n gais ar gyfer y Brifysgol gyfan, rhaid enwi'r prif gyswllt sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cynnig ar y ffurflen.

8.6.3 Rhaid i ffurflen gais y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gynnwys targed SMART ar gyfer datblygu'r cynnig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yr Hyrwyddwr Academaidd sy'n atebol am gyflawni targedau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

8.6.4 Rhaid i unrhyw bartner o'r DU fod yn noddwr Haen 4 sydd wedi'i gydnabod gan Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI) yn ei hawl ei hun, er mwyn i'r Brifysgol gael ei sicrhau bod y partner mewn sefyllfa i gyflawni ei ymrwymadau dan y cynllun fisa 'seiliedig ar bwyntiau'. Rhaid i gyd-weithwyr gysylltu â'r Rheolwr Cydymffurfio (compliance@aber.ac.uk) am gyngor cyn llunio unrhyw gytundeb ffurfiol sy'n cynnwys neu a allai gynnwys myfyrwyr fisa Haen 4 yn dilyn newidiadau i reolau UKVI ar bartneriaethau.

8.6.5 Rhaid i unrhyw gynnig newydd ar gyfer gweithgarwch cydweithredol gael ei gymeradwyo ar lefel yr Athrofa cyn i'r cais Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol.

8.6.6 Dylai ffurflenni cais Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd wedi'u cwblhau ar gyfer darpar bartneriaid rhyngwladol gael eu llofnodi a'u cyflwyno i'r swyddfa ryngwladol ar gyfer ystyriaeth gychwynnol trwy gyfrwng partnerships@aber.ac.uk. Dylai cynigion cydweithredu sy'n seiliedig yn y DU gael eu cyflwyno i'r Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion trwy gyfrwng collaboration@aber.ac.uk.

8.6.7 Mae'r holl gynigion ar gyfer darpariaeth gydweithredol yn cael eu cynnwys ar gronfa ddata a gedwir gan y Swyddfa Ryngwladol ac ar safle SharePoint y Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol er mwyn i aelodau'r Pwyllgor gael cyfeirio atynt.

8.6.8 Gall buddiannau posibl darpariaeth gydweithredol fod yn sylweddol pan fyddant wedi'u hymchwilio a'u rheoli'n dda; fodd bynnag, mae'n hanfodol nad yw Athrofeydd yn diystyru'r risgiau sylweddol a difrifol iawn y mae rhai mathau o weithgareddau cydweithredol yn eu cyflwyno. Bydd y

Swyddfa Ryngwladol a'r Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion yn gwneud gwiriadau ar y sefydliad partner posibl cyn cyflwyno'r cais Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i'r Pwyllgor ei ystyried a'i gymeradwyo. Ni ellir datblygu'r bartneriaeth gydwethredol ymhellach cyn i'r Pwyllgor roi ei gymeradwyaeth.

8.6.9 Rhaid i sefydliad dyfarnu sy'n ymwneud â chorff dyfarnu awdurdodedig arall ar y cyd i ddarparu rhaglen astudio sy'n arwain at ddyfarniad academaidd deuol neu ar y cyd allu bodloni ei hun fod ganddo'r capasiti cyfreithiol i wneud hynny, a bod safon academaidd y dyfarniad, gan gyfeirio at y FfCAU, yn bodloni ei ddisgwyliadau ei hun, waeth beth yw disgwyliadau'r corff dyfarnu sy'n bartner iddo.

8.6.10 Gall y Pwyllgor naill ai gymeradwyo'r cais Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gofyn am ragor o wybodaeth neu wrthod y cynnig.

8.6.11 Wedi i'r cais Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gael ei gymeradwyo, gellir llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Brifysgol a'r partner posibl. Bydd y Dirprwy Is-ganghellor Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol neu'r Is-ganghellor yn llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ran y Brifysgol.

8.6.12 Os yw'r partner eisiau defnyddio ei dempled Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ei hun, rhaid iddo gael ei adolygu gan y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion cyn ei lofnodi, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethau sylweddol neu rwymedigaethau cyfreithiol na fyddai'r Brifysgol eisiau cydsynio iddynt.

8.6.13 Os yw'r Athrofa eisiau adeiladu ar sail ei Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, rhaid i gytundebau ychwanegol gael eu datblygu, eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y ddwy ochr ar gyfer pob trefniant cydwethredol.

8.8 Yr Achos Busnes

8.8.1 Rhaid cwblhau'r templed Achos Busnes ar gyfer y mathau canlynol o weithgarwch cydwethredol:

- Cydweddu
- DPP â chredydau ynghlwm
- Graddau cydwethredol
- Rhyddfrenio
- Dilysu
- Gellir hefyd gwblhau achosion busnes ar gyfer mathau eraill o drefniadau (e.e. Cytundebau Gwasanaeth) ar gais y Pwyllgor.

8.8.2 Rhaid i drefniadau ariannol pob trefniant cydwethredol gael eu costio a'u cyfrifo yn gywir ac yn llawn, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau monitro ac arholi allanol, cyn y gall y Memorandwm Cytundeb gael ei lofnodi a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol.

8.8.3 Mae'r ASA yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r achos busnes a'r achos academaidd ar gyfer trefniant cydwethredol arfaethedig gael eu hystyried ar wahân. Rhaid i oblygiadau ariannol gael eu trafod gyda'r Swyddfa Gyllid a rhaid iddynt gydymffurfio â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol.

8.8.4 Dylai templedi achos busnes gael eu cyflwyno i'r Swyddfa Gyllid wedi i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gael ei lofnodi a, chan ddibynnu ar natur y bartneriaeth, bydd angen iddynt gael eu

cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cyllid a/neu Weithrediaeth y Brifysgol cyn y gall y bartneriaeth symud ymlaen ymhellach. Rhaid rhoi gwybod am y penderfyniad a wneir gan y Cyfarwyddwr Cyllid a/neu Weithrediaeth y Brifysgol i'r Swyddfa Gydweithredu yn y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion (collaboration@aber.ac.uk) er mwyn adrodd arno wrth y Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol.

8.8.5 Gall y gwaith o ddatblygu'r achos busnes ddigwydd ar yr un pryd â datblygiad yr achos academaidd ar gyfer darpariaeth gydweithredol.

8.8.6 Dylai atodiadau ariannol i'r Memorandwm Cytundeb gael eu hadolygu gan y Swyddfa Gyllid cyn i'r cytundeb gael ei lofnodi.

8.9 Ymweliad Safle

8.9.1 Dyma'r prif egwyddorion sy'n llywio'r broses o gymeradwyo sefydliadau a rhaglenni:

- Yr angen am ddiwydrwydd dyladwy addas;
- Yr angen i sicrhau bod adnoddau a gweithdrefnau'r sefydliad, yn enwedig ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd, yn bodloni gofynion y Brifysgol;
- Yr angen am broses dau gam sy'n cymeradwyo'r sefydliad ac yna, yn amodol ar ganlyniad cadarnhaol ar y cam cyntaf, yn dilysu cynlluniau penodol;
- Yr angen i sicrhau bod y sefydliad yn darparu'r profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr y mae'r Brifysgol yn ei ddisgwyl.

8.9.2 Cyn datblygu Memorandwm Cytundeb, bydd yr holl drefniadau cydweithredu posibl newydd, ynghyd â darpariaeth bresennol lle gofynnir am gymeradwyaeth i ddarparu rhaglenni mewn maes pwnc newydd, yn destun Ymweliad Sefydliadol. Yn unol â disgresiwn y Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol, gellir barnu bod ymweliad yn ddiangen ar gyfer rhaglenni ar y cyd â sefydliadau a chanddynt enw da sydd wedi'i hen sefydlu.

8.9.3 Bydd y tîm ar gyfer yr ymweliad yn cael ei gynnull o banel sefydlog o aelodau academaidd o staff a phanel sefydlog sy'n gyfrifol am Sicrhau Ansawdd. Dewisir un neu ddau o bob Panel i ymweld â'r sefydliad, ynghyd ag aseswr allanol. Rhaid llenwi ffurflen enwebu aseswr allanol yn dilyn trafodaeth â Chadeirydd y Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol a'r staff academaidd sy'n datblygu'r cynnig. Tîm yr Ymweliad ar gyfer prosiectau cydweithredu ym maes ymchwil fydd y Cyfarwyddwr Ymchwil yn yr Athrofa berthnasol a'i (d)dirprwy.

8.9.4 Bydd y Cadeirydd yn manylu cyn yr ymweliad ynghylch unrhyw ddogfennaeth ychwanegol sy'n ofynnol, yr adnoddau y bydd y Tîm eisiau eu gweld, a'r staff addysgu a/neu uwchreolwyr y bydd y Tîm eisiau cwrdd â hwy.

8.9.5 Cyn yr ymweliad bydd y sefydliad partner yn cael gwybod am unrhyw ffioedd a allai fod yn daladwy. Rhaid i'r Athrofa sy'n arwain datblygiad y cynnig fod wedi cael cytundeb gan y partner i dalu unrhyw ffioedd perthnasol cyn i'r ymweliad gael ei gynnal. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer darpariaeth ryddfrenio neu ddilysu arfaethedig.

8.9.6 Bydd dogfennaeth yn darparu gwybodaeth am y cydweithredu arfaethedig, gan gynnwys manylion llawn yr adnoddau a gweithdrefnau rheoli'r cwrs, ynghyd ag unrhyw newidiadau lleol i'r rhaglen, yn cael ei chyflwyno gan yr Hyrwyddwr Academaidd i'r panel o leiaf ddeg diwrnod gwaith cyn unrhyw ymweliad. Yn ogystal, a lle bo'n berthnasol, rhaid darparu copïau o'r ddogfen gymeradwyedig ddiweddaraf ar gyfer unrhyw gynlluniau neu fodiwlau astudio sy'n rhan o'r cydweithredu arfaethedig i aelodau'r panel. Disgwylir y bydd ymweliad sefydliadol yn canolbwyntio

ar ac yn profi addasrwydd partneriaid posibl fel sefydliad i ddarparu cyfleusterau a/neu i gynnig cwrs sy'n arwain at ddyfarniad PA. Er mwyn pennu hyn, bydd gofyn i'r panel ymweld, lle bo'n berthnasol, asesu:

a)	Perchnogaeth y sefydliad a'i statws ariannol
b)	Cefndir a statws academaidd y sefydliad, gan gynnwys <ul style="list-style-type: none">- Cefndir y system addysg o fewn y wlad (ar gyfer partneriaethau tramor yn unig)- Hanes cryno'r sefydliad, gan gyfeirio'n arbennig at ddatblygiadau diweddar- Cyfeirio at unrhyw gynlluniau sefydliadol- Strwythur academaidd, gweinyddol a rheolaethol- Cysylltiadau â chyrff eraill (os oes rhai)
c)	Adnoddau <ul style="list-style-type: none">- Cyfleusterau labordy, llyfrgell a TG- Ystafelloedd addysgu- Adnoddau sy'n benodol i'r rhaglen- Staff (gan gynnwys CVau staff sy'n gyfrifol am addysgu unrhyw ran o gwrs PA)- Gwasanaethau cymorth academaidd- Gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr- Trefniadau sicrhau ansawdd i ddarparu cyfleoedd dysgu o'r safon ofynnol i alluogi myfyriwr i gyrraedd y safonau academaidd a'r canlyniadau dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad<ul style="list-style-type: none">- Rhaglen datblygu staff- Polisiau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch i sicrhau diogelwch myfyrwyr ar y rhaglen ac unrhyw staff sy'n ymweld lle bo'n berthnasol
d)	Myfyrwyr, gan gynnwys <ul style="list-style-type: none">- Y farchnad fyfyrwyr- Gweithdrefnau dethol- Gofynion mynediad- Targedau recriwtio a nifer y myfyrwyr a dderbynnir bob blwyddyn
e)	Darpariaeth sicrhau ansawdd, gan gynnwys <ul style="list-style-type: none">- Polisiau a gweithdrefnau- Trefniadau ar gyfer asesu a monitro cyrsiau- Gwerthusiad myfyrwyr o'r cyrsiau- Datblygu a gwerthuso staff

8.9.7 Wedi i'r Ymweliad gael ei gwblhau, rhaid i'r Panel ddewis un o'r opsiynau canlynol:

- Cymeradwyo'r Sefydliad heb unrhyw amodau;
- Cymeradwyo'r Sefydliad gyda mân amodau i'w cyflawni cyn i'r trefniant rhwng y Brifysgol a'r Sefydliad gael ei lofnodi;
- Cymeradwyo'r Sefydliad gydag amodau i'w cyflawni cyn i adroddiad y Panel gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Gadeirydd y Panel
- Gwrthod y cais gan y Sefydliad a rhoi gwybod i'r Sefydliad y rhesymau pam, gan nodi a fydd y Brifysgol yn barod i ystyried ceisiadau yn y dyfodol ai peidio.

8.9.8 Rhaid i'r Pennaeth Darpariaeth Gydwethredol (neu'r sawl a enwebir ganddo/i) baratoi adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol er mwyn ei gymeradwyo yn y lle cyntaf, ac yna'i gyflwyno i'r Bwrdd Academaidd. Os bydd y Bwrdd Academaidd yn cymeradwyo'r partner, gall y broses o ddatblygu'r Memorandwm Cytundeb a chymeradwyo'r rhaglen gychwyn.

8.10 Cymeradwyo Modiwlau/Cynlluniau

Mae'r broses Cymeradwyo Cynlluniau a Modiwlau ar gyfer Darpariaeth Gydwethredol yn dilyn y broses safonol y Brifysgol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adran 2 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

8.11 Y Memorandwm Cytundeb

8.11.1 Rhaid llofnodi Memorandwm Cytundeb rhwng y Brifysgol a'r partner, yn amlinellu hawliau a rhwymedigaethau pob ochr. Bydd telerau'r Cytundeb ar gyfer Rhaglenni Academaidd Cydwethredol wedi'u trafod a'u cytuno yn ystod cyfnod datblygu'r rhaglen. Bydd yr Is-ganghellor (neu'r sawl a enwebir ganddo/i) yn llofnodi'r cytundeb ar ran y Brifysgol ac fe'i llofnodir hefyd gan y sawl sy'n cyfateb iddo/i yn y sefydliad partner.

8.11.2 Bydd y Memorandwm Cytundeb yn manylu ynghylch telerau'r cytundeb a'r amodau sy'n berthnasol i raglen benodol, gan gynnwys ei hamcanion, ei strwythur academaidd, ei gofynion proffesiynol, yr adnoddau a'r staffio. Pan fydd y bartneriaeth yn cael ei chefnogi gan gyllid grant allanol, gellir cael, yn hytrach na'r cytundeb, gais grant wedi'i gwblhau a llythyr dyfarnu wedi'i lofnodi gan y ddwy ochr.

8.11.3 Bydd y Memorandwm Cytundeb yn cynnwys atodiad ariannol, yn rhoi strwythur ffioedd manwl a rhestr wirio cyfrifoldebau yn amlinellu pa sefydliad sy'n gyfrifol am fonitro a datblygu gwahanol agweddau ar y rhaglen.

8.12 - 8.19 Monitro a Rheoli

Mae'r broses gymeradwyo wedi'i nodi yn adran 8.12 - 8.19

8.12 Monitro

Mae'r dudalen hon yn cael ei diweddarau ar hyn o bryd. Cysylltwch â'r Swyddfa Cydweithredu ar 2014 neu trwy gyfrwng collaboration@aber.ac.uk gydag unrhyw ymholiadau.

8.13.1 Cyhoeddusrwydd

8.13.1.1 Rhaid i'r sefydliad dyfarnu sicrhau bod ganddo reolaeth effeithiol dros gywirdeb yr holl wybodaeth gyhoeddus, deunydd cyhoeddusrwydd a gweithgarwch hyrwyddo sy'n ymwneud â'i ddarpariaeth gydweithredol, a'r ddarpariaeth a gynigir drwy raglenni cydweithredol.

8.13.1.2 Bydd cofnod diweddar ac awdurdodol o bartneriaethau ac asiantiaid cydweithredol PA, ynghyd â rhestr o'r rhaglenni cydweithredol a weithredir drwy'r partneriaethau neu'r asiantaethau hynny, yn rhan o wybodaeth gyhoeddus y Brifysgol.

8.13.2 Gweithredu

8.13.2.1 Unwaith y bydd trefniant cydweithredol wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor, cyfrifoldeb yr Hyrwyddwr Academaidd yn y sefydliad lle y cynigir y trefniant hwnnw yw gweithredu'r cytundeb sy'n llywio'r trefniant. Nid cyfrifoldeb y Pwyllgor yw gwneud hyn. Yn achos trefniadau sy'n berthnasol i'r Brifysgol gyfan, neu'r rheini sy'n cwmpasu mwy nag un sefydliad, yr unigolyn cyswllt arweiniol a enwir ar y cynnig fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cytundeb yn cael ei weithredu yn unol â'i delerau.

8.13.3 Safonau Academaidd

8.13.3.1 Cyrff sy'n dyfarnu graddau sy'n gyfrifol, yn y pen draw, am safonau ac ansawdd academaidd y cyfleoedd dysgu a ddarperir, ni waeth lle y darperir hwy na phwy sy'n eu darparu.

8.13.3.2 Mae'r Brifysgol yn uniongyrchol gyfrifol am safonau academaidd yr holl ddyfarniadau a roddir yn ei henw.

8.13.3.3 Dylai safonau academaidd yr holl ddyfarniadau a wneir o dan drefniant cydweithredol fodloni'r Disgwyliadau yng Nghod Ansawdd yr ASA.

8.13.3.4 Y sefydliad dyfarnu sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod ansawdd y cyfleoedd dysgu a gynigir drwy drefniant cydweithredol yn ddigonol i alluogi myfyriwr i gyrraedd y safon academaidd ofynnol ar gyfer y dyfarniad.

8.13.3.5 Bydd y cyfrifoldeb am safonau ac ansawdd academaidd y cwrs ar ysgwyddau Pwyllgor Dysgu ac Addysgu yr Adran/Athrofa, y Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol, y Pwyllgor Materion Academaidd ac, yn y pen draw, y Bwrdd Academaidd.

8.13.3.6 Rhaid i safonau academaidd pob dyfarniad a wneir o dan drefniant cydweithredol, gan gynnwys graddau cydweithredol, fodloni disgwyliadau Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a Chod Ansawdd yr ASA.

8.13.3.7 Rhaid i bolisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol sicrhau bod camau digonol i ddiogelu rhag temtasiynau ariannol neu demtasiynau eraill a allai gyfaddawdu ar safonau academaidd neu ansawdd y cyfleoedd dysgu.

8.13.4 Staff cymeradwy

8.13.4.1 Rhaid i'r Brifysgol ei bodloni ei hun fod gan y staff sy'n ymwneud â darparu neu gefnogi rhaglen gydweithredol gymwysterau priodol ar gyfer y rôl, a bod gan y sefydliad partner fesurau effeithiol i fonitro a sicrhau gallu'r staff a'r asiantiaid sy'n gweithredu ar ei ran.

8.13.4.2 Cyfrifoldeb yr Athrofa/Adran berthnasol o fewn y Brifysgol fydd dilysu, bob blwyddyn, fod gan bob aelod o'r tîm yn y sefydliad partner sy'n ymwneud â darparu neu gefnogi rhaglen gydweithredol gymwysterau priodol, eu bod yn gwbl gyfarwydd â manylion gweithredol y rhaglen(ni) astudio, gan gynnwys y gofynion asesu, sylabysau, amserlenni, cyfleusterau ac arddull a lefelau'r dysgu a'r addysgu a ddisgwylir ar y rhaglen(ni). Bydd yr Adran/Athrofa o fewn y Brifysgol yn cynnal rhestr wedi'i diweddarau o staff a gymeradwywyd i ddysgu ar y rhaglen sydd wedi'i chymeradwyo. Ni chaiff unrhyw aelod o staff ddysgu ar y rhaglen oni bai ei fod wedi'i gymeradwyo a'i restru'n ffurfiol.

8.13.5 Recriwtio a Derbyng Myfyrwyr

8.13.5.1 Bydd y gofynion derbyn a'r gweithdrefnau gwneud cais yn cael eu diffinio yn nogfennau'r rhaglen a byddant yn dilyn gweithdrefnau cydnabyddedig cenedlaethol a gweithdrefnau cydnabyddedig y Brifysgol, fel y'u diffiniwyd yn y polisiau a'r gweithdrefnau Derbyng, a'r polisiau a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

8.13.5.2 Rhaid i'r trefniadau derbyn, gan gynnwys y rheini ar gyfer Achredu Dysgu Blaenorol (APL) ac Achredu Dysgu drwy Brofiad Blaenorol (APEL), gydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol. Cynhelir y weithdrefn dderbyn yn unol â'r meini prawf a nodwyd ym Manyleb y Rhaglen.

8.13.5.3 Dim ond myfyrwyr sy'n bodloni'r safonau gofynnol o ran Gallu Iaith Gymraeg a Saesneg y caiff y Brifysgol eu derbyn.

8.13.6 Cyfrifoldebau tuag at Fyfrwyr

8.13.6.1 Rhaid i ddarpar fyfrwyr dderbyn eglurhad clir a realistig o'r disgwyliadau a fydd arnynt er mwyn astudio'r rhaglen neu'r elfen astudio, natur a graddfa agweddau awtonomaidd, cydweithredol a chynorthwyedig y dysgu, ac ymrwymadau'r sefydliad dyfarnu a'r darparwr cefnogol (os yw'n briodol) i gefnogi'r rhaglen neu'r elfen astudio.

8.13.6.2 Rhaid i'r sefydliad dyfarnu fynd ati'n rheolaidd i fonitro'r wybodaeth a roddir gan y sefydliad neu'r asiant partner i ddarpar fyfrwyr a'r rheini sydd wedi'u cofrestru ar y rhaglen gydweithredol.

8.13.6.3 Rhaid bod gan fyfrwyr fynediad at ddisgrifiadau o unedau neu fodiwlau gwahanol rhaglen neu elfen astudio, er mwyn dangos y deilliannau dysgu a fwriedir a dulliau dysgu, addysgu ac asesu'r uned neu'r modiwl, ynghyd ag amserlen glir ar gyfer cyflwyno eu deunyddiau astudio ac ar gyfer asesu eu gwaith.

8.13.6.4 Rhaid i'r sefydliad dyfarnu sicrhau y gall myfyrwyr fod yn ffyddiog

a) bod y gefnogaeth i ddysgwyr, boed yn cael ei darparu drwy staff darparwr cefnogol neu drwy sianel ar y we neu sianel arall, yn bodloni disgwyliadau pendant y sefydliad dyfarnu ar gyfer ansawdd y gefnogaeth i ddysgwyr ar gyfer rhaglen astudio sy'n arwain at ddyfarniad ganddo;

b) bod dibynadwyedd system ddarparu unrhyw raglen neu elfen a gynigir i'w astudio wedi cael ei brofi, ac y byddai cynlluniau wrth gefn yn cael eu gweithredu petai'r cyfryngau darparu a gynlluniwyd yn methu;

c) bod system ddarparu rhaglen neu elfen astudio a ddarperir drwy ddulliau e-ddysgu yn addas i'w diben, ac y bydd ar gael ac yn para am gyfnod priodol o amser;

d) bod cyfrwng darparu unrhyw ddeunyddiau astudio yn uniongyrchol i fyfyrwyr o bell drwy, er enghraifft, ddulliau e-ddysgu neu ohebiaeth, yn ddiogel ac yn ddibynadwy, a bod modd cadarnhau eu bod wedi cyrraedd yn ddiogel.

8.13.6.5 Rhaid bod myfyrwyr yn gallu cael gafael ar

a) amserlen ar gyfer unrhyw gefnogaeth i fyfyrwyr sydd ar gael iddynt drwy gyfrwng gweithgareddau sydd wedi'u hamserlennu, er enghraifft sesiynau tiwtorial neu gynadleddau ar y we;

b) gwybodaeth glir wedi'i diweddarau ynghylch y gefnogaeth ddysgu sydd ar gael iddynt yn lleol ac o bell ar gyfer eu rhaglen neu eu helfennau astudio;

c) unigolyn cyswllt a enwyd, naill ai'n lleol neu o bell drwy gyfrwng e-bost, ffôn, ffacs neu'r post, a all roi adborth adeiladol iddynt ar eu perfformiad academaidd ac arweiniad awdurdodol ar eu cynnydd academaidd;

d) cyfleoedd rheolaidd ar gyfer trafodaethau â dysgwyr eraill ynghylch y rhaglen, er mwyn hwyluso dysgu cydweithredol ac i fod yn sail ar gyfer hwyluso eu cyfraniad i sicrwydd ansawdd y rhaglen;

e) cyfleoedd priodol i roi adborth ffurfiol ar eu profiad o'r rhaglen.

8.13.7 Asesu myfyrwyr ar raglenni drwy gwrs

8.13.7.1 Rhaid bod disgrifiad o sgôp, cwmpas a strategaeth asesu rhaglen gydweithredol ym Manyleb y Rhaglen. Yn ogystal â dogfennau'r rhaglen, bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Tîm Ymweld.

8.13.7.2 Yn achos dyfarniadau deuol, rhaid i unrhyw drefniadau trosglwyddo credydau sicrhau bod y cyrsiau neu fodiwlau hynny a gymerwyd yn y sefydliad partner, ac sy'n cyfrannu at y dyfarniad gan Aberystwyth, ar y lefel briodol a bod y myfyrwyr, yn y pen draw, yn ennill y nifer gofynnol o gredydau a holl ddeilliannau dysgu'r rhaglen. Ym mhob achos, 'credydau', yn hytrach na marciau, sy'n cael eu trosglwyddo.

8.13.7.3 Cyfrifoldeb y sefydliad dyfarnu yw sicrhau bod deilliannau asesu rhaglen a ddarperir o dan drefniant cydweithredol yn bodloni lefel academaidd ddynodedig y dyfarniad, fel y'i diffiniwyd yn y FfCAU yng nghyd-destun y datganiad(au) meincnodi pwnc perthnasol.

8.13.7.4 Bydd y rheoliadau sy'n berthnasol i bob Rhaglen wedi'u nodi ym Manyleb y Rhaglen ar gyfer y Rhaglen honno.

8.13.7.5 Yn achos rhaglenni drwy gwrs, bydd pob math o asesiad yn cael ei gynnal yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol sy'n ymwneud ag asesu, heblaw am gredyd a enillir mewn sefydliad partner ar gyfer dyfarniad deuol.

8.13.7.6 Rhaid i staff Athrofa'r Brifysgol fynd ati'n rheolaidd i graffu ar gwestiynau arholiad, gwaith myfyrwyr a marciau a roddir gan staff partner, yn enwedig yn ystod camau cychwynnol partneriaeth newydd.

8.13.7.7 Bydd y gweithdrefnau ar gyfer Byrddau Arholi yn unol â rheoliadau'r Brifysgol. Rhaid cyflwyno pob canlyniad asesiad ar gyfer symud ymlaen ar Lefel 4 a Lefel 5 i Fwrdd Arholi perthnasol y Brifysgol i'w gymeradwyo. Dylai pob canlyniad asesiad ar gyfer dyfarniadau terfynol ar Lefelau 4, 5, 6

a 7 gael eu hanfon i gael eu hystyried gan Fwrdd Arholi'r Adran/Athrofa yn y Brifysgol, er mwyn rhoi'r dyfarniad.

8.13.7.8 Sefydliar byrddau arholi ar gyfer graddau cydweithredol fel y'u diffiniwyd gan reoliadau'r Brifysgol, a byddant yn cydymffurfio â'r bennod berthnasol yng Nghod yr ASA.

8.13.7.9 Rhaid i'r sefydliad dyfarnu sicrhau bod unrhyw sefydliad partner sy'n ymwneud ag asesu myfyrwyr yn deall ac yn dilyn y gofynion a gymeradwywyd gan y sefydliad dyfarnu ar gyfer cynnal asesiadau. Dylai'r rhain eu hunain fod yn cyfeirio at Bennod A6: Assessment of achievement of learning outcomes; a Phennod B6: Assessment of students and accreditation of prior learning Cod Ansawdd yr ASA.

8.13.7.10 Rhaid i'r gweithdrefnau arholi allanol ar gyfer rhaglenni a gynigir drwy drefniadau cydweithredol fod yn gyson ag arferion arferol y sefydliad dyfarnu.

8.13.7.11 Rhaid i'r sefydliad dyfarnu gadw'r cyfrifoldeb, yn y pen draw, am benodi a nodi swyddogaethau arholwyr allanol. Wrth recriwtio a dethol arholwyr allanol dylid cyfeirio at Bennod B7: External examining Cod Ansawdd yr ASA.

8.13.7.12 Bydd arholwr allanol y Brifysgol yn bresennol yn y Bwrdd Arholi Terfynol. Rhaid i arholwyr allanol rhaglenni cydweithredol gael briffiad a chanllawiau a gymeradwywyd gan y sefydliad dyfarnu sy'n ddigonol iddynt allu cyflawni eu rôl yn effeithiol . Bydd y Pwyllgor yn ystyried crynodeb o sylwadau arholwyr allanol yn rhan o'r adolygiad o adroddiadau Monitro Blyneddol Cynlluniau trwy Gwrs bob blwyddyn.

8.13.7.13 Rhaid bod myfyrwyr yn gallu cael gafael ar:

a) wybodaeth am y ffyrdd y bydd eu cyflawniadau'n cael eu pwysu a'u mesur, a phwysoliad cymharol unedau, modiwlau neu elfennau'r rhaglen mewn perthynas â'r asesiad;

b) asesiad ffurfiannol prydlon o'u perfformiad academiaidd er mwyn rhoi sylfaen ar gyfer adborth ac arweiniad adeiladol iddynt fel unigolion, ac er mwyn dangos disgwyliadau'r sefydliad dyfarnu ar gyfer yr asesiad cyfunol.

8.13.7.14 Rhaid bod y myfyrwyr yn ffyddiog:

a) bod y gwaith yr aseswyd hwy arno yn cael ei dadogi'n briodol iddynt, yn enwedig mewn achosion lle cynhelir yr asesiad drwy ddulliau o bell a allai olygu ei fod yn cael ei ryng-gipio neu lle gellid bod yn ymyrryd ag ef mewn ffordd arall;

b) bod y rheini sy'n gyfrifol am asesu yn gallu cadarnhau bod y gwaith yr aseswyd myfyrwyr arno yn waith gwreiddiol gan y myfyriwr hwnnw yn unig, yn enwedig mewn achosion lle cynhelir yr asesiad drwy ddulliau o bell;

c) bod unrhyw gyfrwng ar gyfer trosglwyddo'u gwaith yn uniongyrchol i aseswyr, er enghraifft, drwy ddulliau ar y we neu ohebiaeth, yn ddiogel ac yn ddibynadwy, a bod modd cadarnhau ei fod wedi cyrraedd yn ddiogel.

8.13.8 Apeliadau, Cwynion a Chamymddygiad Academaidd

8.13.8.1 Rhaid rhoi gwybod i ddarpar fyfyrwyr a'r rheini sydd wedi cofrestru ar raglenni cydweithredol am y sianeli priodol ar gyfer cyflwyno pryderon, cwynion ac apeliadau penodol, gan egluro pa sianeli y gallant eu defnyddio i gysylltu â'r sefydliad dyfarnu yn uniongyrchol.

8.13.8.2 Ym mhob achos, rhaid penderfynu ar apêl gan fyfyrwr yn erbyn unrhyw asesiad o'i waith drwy ddilyn gweithdrefn apelio'r Brifysgol, fel y'i nodwyd yn y rheolau a'r rheoliadau.

8.13.8.3 Ymdrinnir ag unrhyw gŵynion gan fyfyrwyr am y cwrs, ansawdd yr addysgu, cyfleusterau neu unrhyw fater perthnasol arall yn unol â'r Weithdrefn Gwyno sydd mewn grym yn y Brifysgol ar yr adeg y cofrestrir y gŵyn. Bydd y cyfeiriad at rôl Pennaeth yr Adran yn y Weithdrefn Gwyno yn cael ei ddehongli i olygu Pennaeth yr adran Bartner berthnasol mewn ymgynghoriad â Phennaeth Athrofa berthnasol y Brifysgol. Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag ansawdd y Rhaglen ac os yw'r myfyriwr yn teimlo, ar ôl dilyn y gŵyn i'r pen o fewn y sefydliad partner, nad ymdriniwyd â hi'n foddhaol mae hawl gan y myfyriwr i ofyn am adolygiad terfynol a gaiff ei gynnal gan un o Ddirprwy Is-gangellorion y Brifysgol.

8.13.8.4 Rhaid i'r sefydliad partner a'r Brifysgol gadw cofnod o'r holl apeliadau a'r cwynion a wneir gan fyfyrwyr, a rhaid rhoi gwybod am ganlyniad pob cwyn i'r Bwrdd Academaidd.

8.14 Cyfrifoldebau'r Sefydliad Partner

8.14.1 Cyfrifoldebau'r sefydliad sy'n bartner yn amrywio yn ôl y math o weithgarwch cydweithredol a manylion penodol a amlinellir yn y Memorandwm Cytundeb llywodraethu'r cydweithio.

8.15 Ardystio a Thrawsgrifiadau

8.15.1 Y Brifysgol yn unig fydd yn gyfrifol am ddyfarnu tystysgrifau a thrawsgrifiadau sy'n ymwneud â'r rhaglenni astudio a ddarperir drwy raglenni cydweithredol.

8.15.2 Bydd y dystysgrif a/neu'r trawsgrifiad yn cofnodi

a) Prif iaith yr addysgu os nad Saesneg ydoedd,

b) iaith yr asesu os nad Saesneg ydoedd (ac eithrio dyfarniadau ar gyfer rhaglenni neu elfennau ohonynt oedd yn ymwneud ag astudio iaith dramor lle mai prif iaith yr asesu oedd yr iaith astudio hefyd). Pan fydd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar y trawsgrifiad yn unig, dylai'r dystysgrif gyfeirio at fodolaeth y trawsgrifiad. Nid yw cyfeiriadau yma at 'iaith dramor' ac iaith 'nad Saesneg ydoedd' yn cynnwys rhaglenni a ddarperir ac a asesir gan sefydliadau Cymreig drwy gyfrwng y Gymraeg.

8.15.3 Yn amodol ar drafodaeth gyda'r sefydliad partner ac yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth statudol sydd yn flaenaf neu unrhyw ddarpariaeth gyfreithiol arall mewn unrhyw awdurdodaeth berthnasol, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y dystysgrif a/neu'r trawsgrifiad (gan gynnwys HEAR) yn cofnodi enw a lleoliad y sefydliad partner sy'n ymwneud â darparu'r rhaglen astudio.

8.16 Cyflwyno Dyfarniad

8.16.1 Pan fydd yn berthnasol, gall y Partner wneud unrhyw drefniadau y mae'n ystyried eu bod yn addas ac yn weddus ar gyfer seremoni lle bydd tystysgrifau am ddyfarniadau'r Brifysgol yn cael eu cyflwyno, neu benderfynu y gall myfyriwr fod yn bresennol yn seremoni raddio Prifysgol Aberystwyth.

8.16.2 Bydd trefniadau o'r fath yn amodol ar gael eu cymeradwyo gan y Brifysgol.

8.16.3 Bydd costau rhesymol a delir gan y Brifysgol am seremonïau o'r fath a chyfranogiad staff Prifysgol angenrheidiol yn cael eu hymgorffori yn yr Achos Busnes.

8.16.4 Ar gyfer dyfarniadau Prifysgol Aberystwyth, bydd graddedigion y Rhaglen yn cael gwisgo'r wisg academiaidd briodol yn unol â Pholisïau a Rheoliadau'r Brifysgol.

8.16.5 Bydd myfyrwyr y dyfernir iddynt un o raddau'r Brifysgol yn dod yn aelodau o Alumni y Brifysgol.

8.17 Adolygu Cyfnodol

8.17.1 Yn achos trefniant cydweithredol gyda sefydliad partner, neu ymwneud ag asiant, rhaid i'r sefydliad dyfarnu allu bodloni ei hun fod y telerau a'r amodau a gymeradwywyd yn wreiddiol wedi cael, ac yn parhau i gael, eu bodloni.

8.17.2 Yn unol â phroses sicrhau ansawdd fewnol y Brifysgol, bydd y modd y gweithredir trefniadau cydweithredol gan adrannau/athroffeydd yn cael ei adolygu'n gyfnodol gan y Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol.

8.17.3 Bydd y gwaith o drefnu'r adolygiad yn cael ei gydlynu gan y Swyddfa Ansawdd Academiaidd a Chofnodion a bydd yn dilyn gweithdrefnau adolygiadau eraill y Brifysgol. Bydd adroddiad yr adolygiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Athrofa perthnasol, y Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol, y Bwrdd Academiaidd ac is-brifathro y partner.

8.17.4 Cynhelir adolygiad cyfnodol o bob rhaglen gan y Pwyllgor bob pum mlynedd. Bydd hwn yn ystyried datblygiad cyffredinol y rhaglen, ansawdd yr addysgu, y galw gan fyfyrwyr, niferoedd y ceisiadau a'r safonau derbyn, adnoddau ffisegol, datblygiadau o ran adnoddau a strategaethau dysgu, cynnydd myfyrwyr a'u cyflogadwyedd, staffio ac ansawdd yr addysgu.

8.18 Adnewyddu

Mae'r dudalen hon yn cael ei diweddarau ar hyn o bryd. Cysylltwch â'r Swyddfa Cydweithredu ar 2014 neu trwy gyfrwng collaboration@aber.ac.uk gydag unrhyw ymholiadau.

8.19 Terfynu

8.19.1 Mae'r Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol yn cadw'r hawl i derfynu unrhyw drefniant cydweithredol nad yw'n parhau i gwrdd â'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Memorandwm Cytundeb.

8.19.2 Rhaid i'r Memorandwm Cytundeb fanylu ynghylch yr amodau pan ellir terfynu cytundeb, a'r camau angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau myfyrwyr presennol gan gynnwys cynnig rhaglenni amgen lle y bo'n briodol.

8.19.3 Os terfynir cytundeb, bydd y Brifysgol a'r Partner, lle y bo angen, yn sefydlu Cytundeb Terfynu a fydd yn amlinellu cyfrifoldebau a hawliau'r ddau sefydliad a'r myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglenni.